Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Rhaglen Play Makers

Mae Play Makers yn gymhwyster Arweinwyr Chwaraeon rydyn ni'n ei ddarparu mewn ysgolion cynradd. Mae'r cwrs yn gyflwyniad gwych i arweinyddiaeth i blant naw oed a hŷn. Mae plant yn dysgu sut i drefnu a darparu gemau a gweithgareddau i'w cyfoedion. Mae'r cwrs yn datblygu sgiliau arwain fel sgiliau trefnu, cyfathrebu a gweithio'n rhan o garfan ynghyd â helpu i fagu hyder a hunan-barch.

**Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020:**

Roedd **30** o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant Play Maker

Mae **570** o Arweinwyr Chwarae wedi'u hyfforddi

## Ysgol Gynradd Cwmaman

Roedd Ysgol Gynradd Cwmaman wedi hyfforddi 16 o blant i fod yn Arweinwyr Chwarae er mwyn helpu creu amseroedd egwyl mwy strwythuredig. Mae'r strwythur wedi creu awyrgylch mwy tawel ac wedi lleihau problemau ymddygiad. Mae'r Arweinwyr Chwarae yn cyflwyno gweithgareddau bob amser egwyl ac yn arwain y twymo i fyny cyn gwneud ymarfer corff. Mae'r amgylchedd ar yr iard yn ystod amseroedd egwyl bellach yn un hwyliog, hapus a difyr i bob plentyn. Mae mwy o blant yn dysgu gemau newydd, yn datblygu sgiliau newydd ac yn fwy egnïol.

### Pan ofynnwyd iddyn nhw, dywedodd pob un o'r 16 Arweinwyr Chwarae eu bod nhw'n:

- Teimlo'n hyderus
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu gwell
- Falch ohonyn nhw eu hunain; a'u bod
- Wedi gwneud ffrindiau newydd
- Wedi gwella sgiliau gwaith tîm; a
- Bod eu sgiliau trefnu wedi gwella

> *"Mae'r prosiect Arweinwyr Chwarae yn bendant wedi bod yn brosiect gwerth chweil yn ein hysgol ni. Mae'n ein cefnogi gyda phob un o bedwar pwrpas craidd cwricwlwm newydd Cymru. Mae'r plant sydd wedi cael profiad ohono, wedi datblygu'n unigolion iach, hyderus. Mae pob un o'r plant yn gwybod bod ganddyn nhw rywun i chwarae gyda nhw yn ystod amser chwarae. Mae wedi gwella ein lles ac mae'r plant yn ymddangos yn llawer hapusach yn yr ysgol."*
> *Athro/Athrawes*

> *"Rwy'n hoffi bod yn arweinydd Chwarae oherwydd rwy'n hoffi gweld pobl yn mwynhau eu hunain ar yr iard ac yn dysgu pethau newydd."*
> *Arweinydd Chwarae*

> *"Rwy'n mwynhau bod yn arweinydd Chwarae oherwydd mae wedi cynyddu fy hyder wrth arwain gemau ac rwy'n hoffi gweld pobl yn hapus."*
> *Arweinydd Chwarae*

> *"Rydw i wedi gwella fy ngwaith tîm, fy sgiliau a fy nghyfathrebu ag eraill."* *Arweinydd Chwarae*

RHONDDA CYNON TAF